Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Llanfawr

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

ae Ysgol Llanfawr yn gymuned ddysgu ofalgar, hapus a chroesawgar sy'n cefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn garedig ac yn aeddfed, gan ddangos parch tuag at staff ac ymwelwyr. Mae'r ddarpariaeth i gefnogi lles disgyblion a staff yn nodwedd effeithiol o'r ysgol.

Mae gweledigaeth gadarn yr arweinwyr a'r staff i 'Lwyddo'n Ddiogel, Gyda'n Gilydd', yn cael ei rhannu'n effeithiol gyda'r disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol. Mae arweinwyr yn arddel prosesau hunanwerthuso yn gadarn, sy'n galluogi gwelliannau yn y ddarpariaeth er lles a chynnydd disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau dros amser. Drwy ddatblygu'r Gymraeg gan ddefnyddio iaith arwyddo, mae cymhelliant ac ymdrech mwyafrif y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar mewn gwersi yn datblygu'n briodol. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth bob tro'n rhoi cyfleoedd cyson a chydlynus i'r disgyblion ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol yn ddigon effeithiol.

Mae staff yn darparu amgylchedd dysgu yn bwrpasol i ysgogi disgyblion, gan gynnig cymorth a chefnogaeth gwerthfawr iddynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn dangos balchder yn eu gwaith. Drwy ganolbwyntio ar yr ardal leol, mae athrawon yn sicrhau bod y profiadau dysgu'n ennyn a chynnal diddordeb y disgyblion yn dda. Mae'r profiadau hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu medrau amrywiol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob tro'n darparu cyfleoedd digon bwriadus i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn adeiladol ar draws y meysydd dysgu.

Mae gan arweinwyr a staff berthynas hynod gynhyrchiol â rhieni a'r gymuned ehangach. Maent yn cefnogi'r rhieni mewn modd sensitif ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt ymweld â'r ysgol ac ymgysylltu â dysgu'r disgyblion yn effeithiol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau Cymraeg yn gyson a chydlynus mewn sefyllfaoedd amrywiol

A2 Darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gymhwyso a datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn adeiladol ar draws y meysydd dysgu

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/08/2025